518

# Damwain Arswydus yn Neheudir Cymru.

OFNIR FOD

## 434 WEDI EU LLADD!

### GWRHYDRI Y GWAREDWYR.

Boreu Mawrth, Hydref 14, 1913, am wyth o'r gloch, yn Senghenydd, D.C., digwyddodd un o'r damweiniau mwyaf arswydus a gymerodd le erioed yn Mhrydain Fawr.

Am 6 o'r gloch disgynodd 935 i lawr i'r Pwll i ddechreu eu dyddiol waith. Dwy awr wedi hyny clywid ysgydwad ddychrynllyd a arwyddai fod ffrwydriad wedi digwydd yn y lle a adnybyddir fel yr Universal. Mor ofnadwy oedd y ffrwydriad fel y chwythwyd y peiriannau uwchben y pwll yn yfflon, a lladdwyd dyn o'r enw John Moggridge, a edrychai ar ol y *signals.* Hyrddiwyd ef i'r awyr, a disgynodd i'r ddaear yn gorph darnedig—ei ben wedi ei chwythu oddiar ei ysgwyddau.

Disgynodd amryw o wirfoddolwyr i lawr i'r pwll yn ddioedi, a daethant ar draws nifer o ddynion oeddynt wedi gwasgu at eu gilydd mewn gwahanol ranau o'r pwll, ac yn fuan dygwyd 327 i fyny i'r gwyneb. Parhawyd yn y gwaith trwy y nos a chafwyd hyd i 28 yn ychwanegol. Trwy fod y pwll mewn rhanau ar dan, yr oedd gwaith y gwaredwyr yn anhawdd a pheryglus dros ben.

Gwelir maint y golled i bentrefydd Senghenydd ac Aber yn y ffaith fod 300 o fara-enillwyr wedi eu lladd, yn gadael 204 o weddwon a 300 o blant amddifaid yn y lleoedd hyny. Pan yr ychwanegir teuluoedd trallodedig Caerphilly, Nelson, Caerdydd, a lleoedd ereill, bydd nifer y rhai a ddibynent am gynhaliaeth ddyddiol ar lafur y rhai a laddwyd yn rhifo dros fil o eneidiau!

Newydd pruddaidd fflachiwyd heddyw
Gan y wifren trwy y tir
Am alaethus, farwol ddamwain.
Edy ôl am amser hir;

OC-36229650

Llawer mam a hoffus briod,
   Ieuainc blant o bob ryw radd,
A alarant am anwyliaid—
   Yn y glô-bwll wedi 'u lladd!

Yn Morganwg bu y danchwa,
   Yn Senghenydd, ger Caerdydd,
Enw eilw prudd adgofion
   Am ffrwydriadau eraill sydd
Wedi digwydd yn y llecyn,—
   Chwerw yw eu côf o hyd—
Rhandir enwog am ei mwnau
   A anfonir dros y byd.

'Roedd naw cant o'r gweithwyr druain
   Wrth eu gorchwyl wyth o'r gloch,
Pan y clywid trwy yr ardal
   Sŵn a welwai lawer boch:
Ergyd greodd ofn a dychryn,
   Ddygodd bang i lawer bron,
Ac ar fyrder rhuthrodd cannoedd
   At y Pwll lle deuai hon.

Poen a phryder lanwai mynwes
   Pawb oedd yno, bach a mawr;
Ofnid mai lladdedig pob-dyn
   O'r naw canwr oedd i lawr,
Ac 'roedd cofio tanchwa arall
   A ddigwyddodd yn 'run fan,
Pan y lladdwyd pawb ond un-dyn,
   Yn lladd gobaith oedd ond gwan.

Trwm arswydol oedd yr ergyd,
   A distrywiol yn mhob modd:
Pen y pwll ddioddefodd effaith
   Canlyniadau erch a rodd;
Yno lladdwyd dyn anffodus
   Safai ugain llath o'r fan,

Ei ben chwythwyd mewn amrantiad—
  Ei gorph gafwyd yn ddau ran.

Ebrwydd ffurfiwyd mintai luosog
  O wyr dewr i fyn'd i lawr,
Ac er fod y Pwll yn danllyd,
  Cafwyd nifer oedd yn fawr
O wroniaid oeddynt barod
  I beryglu 'u bywyd pryd
Er ymestyn cu ymwared,—
  Haeddant ddiolch yr holl fyd!

Am hir amser, yn bryderus,
  Safai'r dorf mewn braw ac ofn,
A phan dreiglai y munudau
  Gobaith ddiffai yn mhob bron:
Ofnid mai c'laneddau meirwon
  Oedd y gweithwyr oll i gyd,
Nad diangol 'run o honynt—
  Ond preswylwyr arall fyd.

Ond yn fuan gwawriodd gobaith,
  Gwelwyd llu yn d'od i'r làn:
Dros dri chant o ddynion ddygwyd
  Mewn byr amser tua glàn,
A chaed gair fod y gwaredwyr
  Yn ddi-ildio yn y gwaith
O waredu'r anffodusion—
  A ddisgwylient amser maith.

Dydd a nos y pery'r ymdrech,
  Ond gofidus nodi'r ffaith
Mai ychydig oedd y nifer
  Gaed yn fyw o'r deifiol waith,
Ac 'roedd siom y presenolion,
  Mewn pangfeydd am ffryndiau cu
Yn trymhau ac angerddoli,
  Ofn gynyddai,—gobaith ffy.

Trwy y dydd er pob peryglon,
  Awyr afiach, marwol nwy,
Gwnaeth yr arwyr hyn eu goreu—
  Ac nid gall'sent wneuthur mwy !
Clod fo iddynt am ei dewrder
  A'u hegnion trwy y dydd
I waredu eu cyd-ddynion,
  O'u peryglon, dwyn hwy'n rhydd.

Pedwar cant o ddynion hoenus—
  Mae y rhif yn fwy na hyn—
Wedi'u hyrddio i dragwyddoldeb,
  Edrych wna y byd yn syn !
Tadau, brodyr, unig noddwyr
  Rhai yn awr mewn galar sydd—
Ffon eu bara wedi myned—
  Yn y du, adfydus ddydd !

Cwyn y weddw gyfyd heddyw
  At drugarog, rasol Dduw,
Cri y plant amddifaid hefyd—
  Ef eu Noddwr hefyd yw ;
Boed i galon pawb o'n pobl
  Gofio angen sydd mor fawr,
Ac ymestyn i'r trueiniaid
  Gymhorth ddyga iddynt wawr !

Evan Williams Market Place, Bangor.